MEDDWL AM HEDY LAMARR

Ro'dd e'n dal i feddwl am Hedy Lamarr
Wrth i'r Dakota lanio yn Nassau
Camodd yn hy dros y tarmac du
A'i galon yn dal i raso.

Ro'dd y palmwydd yn siglo yn y gwynt
Fu'n chwythu'r holl ffordd o Cuba
Dros ynysoedd diri y Caribî
Tair mil o filltiroedd o Walia.

Roedd son fod y rhyfel yn dod i ben
A phawb yn ca'l mynd adre
Nol i'r cwm a'r bywyd llwm
Fu'n byw cyn cael 'i lifre.

Uwch y cymyle i'r wybren las
Mae'n hedfan i fyd 'i freuddwydion
Rhyddid pur, rhyddid pur.

Dan sêr godidog y Caribi
A'r moroedd yn glir fel grisial
Dan hir gysgodion y palmwydd glas
Ca'th flas ar fywyd arall.

Y dyddie du yn ddyddie da
Dyddie hir a hafedd
Y dyddie hynny yn yr haul
Dônt i ben yn y diwedd.

© Geraint Griffiths 2007